



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**  
**Ysgol Gymraeg Henllan**

**Ffordd Dinbych**  
**Henllan**  
**Dinbych**  
**Sir Ddinbych**  
**LL16 5AW**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Cynhaliwyd yr arolygiad hwn fel rhan o roi cynnig ar ein trefniadau arolygu newydd. O ganlyniad, gallai'r adroddiad hwn fod â fformat ychydig yn wahanol i adroddiadau cyhoeddus eraill ar gyfer darparwyr yn y sector.**

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Henllan

Enw'r darparwr	Ysgol Gymraeg Henllan
Awdurdod lleol	Cyngor Sir Ddinbych
Iaith y darparwr	Cymraeg
Cymeriad crefyddol	
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	70
Disgyblion o oedran ysgol statudol	62
Nifer yn y dosbarthiadau meithrin	8
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%)	19.5%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%)	15.5%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	39.1%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol (categoriâu A-C)	0.0%
Dyddiad penodi'r pennaeth	Medi 2018
Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol)	Chwefror 2015
Dyddiad dechrau'r arolygiad	22/04/2024

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol \(gov.wales\)](https://gov.wales)

- a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref a doeth sy'n rhoi cyfeiriad clir i'r ysgol. Caiff ei chefnogi'n fedrus gan dîm o staff cydwybodol ac ymroddgar o fewn cymuned ddysgu ofalgar a chefnogol. Mae'r llywodraethwyr yn weithgar ac yn cefnogi a herio'r ysgol yn fwiadus. Mae gan arweinwyr adnabyddiaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r agweddau sydd angen eu gwella.

Mae staff yn arddel perthynas waith gynhyrchiol â disgyblion ac yn meithrin eu lles yn llwyddiannus. Maent yn arddangos adnabyddiaeth dda o fannau cychwyn amrywiol y disgyblion ac mae hyn yn meithrin amgylchedd dysgu ysgogol sy'n cyfrannu'n effeithiol at fwynhad disgyblion o ddysgu. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn gyfeillgar â'i gilydd ac yn gwrtais ag oedolion. Mae ymddygiad bron bob disgybl yn arbennig o dda ac maent yn teimlo'n ddiogel rhag cam-drin geiriol, emosiynol a chorfforol.

Nodwedd arbennig o fywyd a gwaith yr ysgol yw'r modd y mae'n gwasanaethu'r gymuned leol, ac o ganlyniad, mae bron bob disgybl yn arddangos balchder cynhenid tuag at eu cynefin. Mae ymrwymiad yr ysgol i'r 'Hwb Cynnes' i ddatblygu medrau ieithyddol a chymdeithasol disgyblion yn elfen nodedig o'i darpariaeth.

Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn dangos cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau, yn enwedig eu medrau digidol. Mae staff yn darparu profiadau dysgu cyfoethog sy'n ennyn a chynnal diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus. Er hyn, nid yw athrawon bob tro'n darparu tasgau sy'n herio ychydig iawn o ddisgyblion mwy abl.

Mae'r disgyblion yn falch o gyfathrebu yn y Gymraeg, ac mae'r Criw Cymraeg yn annog eu cyfoedion i siarad a defnyddio'r iaith yn ddigymell yn eu dysgu a'u chwarae. Ar brydiau, mae athrawon yn cynnig adborth buddiol i ddisgyblion ar eu gwaith. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd digon cyson i ddisgyblion ymateb i adborth er mwyn gwneud gwelliannau i'w gwaith.

Mae'r berthynas rhwng yr ysgol a'r rhieni yn gryf ac maent yn gwerthfawrogi'r cyfathrebu cyson rhwng yr ysgol a'r cartref, er enghraifft wrth dderbyn gwybodaeth reolaidd am ddigwyddiadau'r ysgol drwy e-bost neu ar eu llwyfannau digidol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud 2 argymhellion i helpu'r ysgol i barhau i wella

- A1 Ehangu cyfleoedd i ddisgyblion mwy abl ddatblygu eu medrau hyd eithaf eu gallu
- A2 Sicrhau bod adborth athrawon yn cefnogi disgyblion i wella eu gwaith yn gyson

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

Mae Ysgol Gymraeg Henllan yn gymuned ddysgu hynod ofalgar sy'n cynnal lles, darparu cymorth ac arweiniad cadarn i'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae arweinyddiaeth effeithiol ac angerddol y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol ac yn meithrin diwylliant sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus. Gyda chefnogaeth ofalus y llywodraethwyr, mae'r pennaeth yn arddel ac yn cyfleu ei gweledigaeth yn gelfydd i holl bartneriaid yr ysgol i feithrin disgyblion sy'n 'Gymry Balch' lle cânt ystod o brofiadau dysgu diddorol sy'n 'Meithrin yfory, heddiw' yn gelfydd.

Mae ymdeimlad cryf o deulu wedi ei sefydlu yn yr ysgol, ac mae'r berthynas waith gynhaliol a chyfeillgar sy'n bodoli rhwng staff a disgyblion yn nodweddiadol gref o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae arweinwyr a staff yn hyrwyddo diwylliant diogelu cadarn, a bron heb eithriad, mae disgyblion yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn esbonio'n synhwyrol eu bod yn ymddiried yn y staff a'u bod yn fodlon trafod unrhyw bryderon gyda nhw, gan fod yn hyderus y bydd staff yn gwrando ac yn gweithredu'n ddiymdroi.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi lles disgyblion yn gadarn. Gwna staff ddefnydd cymwys o'r 'Ystafell Dawel' i ddarparu sesiynau cymorth effeithiol i gefnogi lles emosiynol disgyblion. Bron heb eithriad, mae ymddygiad disgyblion yn arbennig o dda yn ystod eu gweithgareddau dysgu y tu fewn a thu allan i'r dosbarthiadau. Yn ddiweddar, mae staff wedi gwreiddio'r 'Cynllun Chwarae Cyfeillgar' yn narpariaeth yr ysgol sy'n cyfrannu'n gadarn at greu awyrgylch o gyd-chwarae dedwydd ymysg disgyblion yn ystod amseroedd egwyl a chinio.

Ar draws yr ysgol, mae tîm egniol a brwdfrydig o staff yn cyfrannu'n llwyddiannus at y cynnydd da a wna y rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion mewn grwpiau penodol, yn eu medrau dros amser. Maent yn cydweithio'n ddiwyd i ddarparu cwricwlwm cyfoethog i'r disgyblion mewn cyd-destun lleol a Chymreig. Mae staff yn meithrin amgylchedd dysgu cadarnhaol ac ysgogol gan ddefnyddio ystod o ddulliau addysgu sy'n hybu'r dysgu yn briodol. Mae amcanion clir i'r dysgu ac mae staff yn sicrhau bod cyflymder priodol i weithgareddau. Maent yn defnyddio ystod briodol o ddulliau holi sy'n adalw dysgu blaenorol, cadarnhau dealltwriaeth ac yn llywio cyfeiriad y dysgu yn dda. O oedran cynnar, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleoedd a gânt i ddylanwadu ar yr hyn maent eisiau ei ddysgu o fewn eu themâu tymhorol. Mae hyn yn eu cynorthwyo i gymryd perchnogaeth dros eu dysgu eu hunain yn llwyddiannus.

Ar fynediad i'r ysgol, mae medrau cymdeithasol, emosiynol ac ieithyddol mwyafref y disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim, yn briodol am eu hoed a'u cam datblygu. Cryfder amlwg yn y ddarpariaeth yw'r modd mae'r

pennaeth a'r staff wedi sefydlu 'Hwb Cynnes' yn y gymuned i ddatblygu medrau cymdeithasol a Chymraeg y disgyblion hynaf.

### **Cysylltiadau gwerthfawr yn y gymuned wrth ymweld â'r 'Hwb Cynnes'**

Fel rhan o brosesau monitro'r ysgol, mae arweinwyr wedi adnabod yr angen i gryfhau medrau cymdeithasol disgyblion. Yn ystod eu hymweliadau wythnosol i'r 'Hwb Cynnes' yn y gymuned, maent yn ymgymryd ag ystod o weithgareddau amrywiol a gwerthfawr sy'n cyfrannu'n gadarn at feithrin a datblygu eu hyder yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn datblygu medrau siarad Cymraeg trigolion hŷn y pentref drwy gynnal sgwrs am sesiynau addysg gorfforol ers talwm fel rhan o'u gwaith thema. Nodwedd arbennig o'r cysylltiad yw'r cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddefnyddio a chwarae gemau bwrdd lles maent wedi'u datblygu gyda'r trigolion. O ganlyniad, mae'r profiadau hyn yn cyfrannu'n hynod gelfydd i ddatblygu disgyblion sy'n ddinasyddion parchus ac egwyddorol sy'n meithrin empathi at aelodau hŷn o fewn eu gymuned.

O oedran cynnar, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau'r athrawon ac yn canolbwyntio'n ddiwyd am gyfnodau perthnasol yn ystod sesiynau dysgu. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae medrau siarad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda yn y ddwy iaith, gan ddefnyddio geirfa berthnasol am feysydd penodol yn fedrus a naturiol. Mae'r Criw Cymraeg yn hynod weithgar yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg trwy chwarae gemau ar y buarth a chyd-ganu â'r disgyblion ieuengaf yn ystod amseroedd egwyl a chinio. Mae eu rôl yn cyfrannu'n llwyddiannus at godi proffil a dathlu'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol.

Mae staff yn hyrwyddo diwylliant darllen yn llwyddiannus, ac o ganlyniad, mae medrau darllen y rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'n dda yn y ddwy iaith. Mae disgyblion Blwyddyn 2 yn darllen yn hyderus ac yn frwdfrydig wrth drin a thrafod cynnwys eu storiâu. Ar frig yr ysgol, mae'r disgyblion hynaf yn darllen yn rhugl ac yn fedrus gan fynegi barn am eu hoff awduron yn aeddfed. Un o rinweddau nodedig yr ysgol yw'r berthynas gadarn a rhyngweithiol sydd gan yr ysgol â rhieni ar gyfer hybu darllen yn y cartref.

### **Cryfhau medrau darllen disgyblion mewn partneriaeth â'r rhieni trwy gynllun 'Her Ddarllen Henllan'**

Yn dilyn cyfnod y pandemig, mae'r ysgol wedi adnabod dirywiad ym medrau a mwynhad disgyblion at ddarllen o oedran cynnar. Yn sgil hyn, mae'r pennaeth wedi datblygu pecynnau darllen hwyliog ac sy'n hygyrch i bob disgybl o'r enw 'Her Ddarllen Henllan' er mwyn ailgynnau eu brwdfrydedd a chariad at ddarllen. Gyda chefnogaeth werthfawr rhieni, mae'r disgyblion yn cwblhau amrywiaeth o heriau a thasgau diddorol sy'n cynnwys cyfleoedd bwriadus iddynt fireinio a chymhwyso ystod dda o fedrau darllen. Caiff disgyblion eu gwobrwyo'n wythnosol am gwblhau'r heriau, ac erbyn hyn, mae'r disgyblion mwy abl wedi datblygu i fod yn awduron cymwys wrth ysgrifennu eu llyfrau eu hunain ar gyfer eu cyfoedion. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn ymgolli mewn amrywiaeth o destunau darllen sydd yn ei dro yn eu cefnogi'n werthfawr i wneud cynnydd cyson yn eu medrau.

Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae medrau ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu hymwybyddiaeth o

eiriau aml-ddefnydd yn bwrpasol wrth iddynt ymgymryd â helpa geiriau yn yr ardal ddysgu tu allan. Erbyn brig yr ysgol, mae'r disgyblion hynaf yn gwneud dewisiadau defnyddiol o eirfa ddiddorol a brawddegau pwrpasol wrth iddynt ysgrifennu testun i rannu eu pryderon am effeithiau niweidiol datgoedwigo, er enghraifft.

Dros amser, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau rhifedd. Mae'r disgyblion ieuengaf yn caffael dealltwriaeth o rifau yn gynnar. Maent yn cymhwysu'r ddealltwriaeth hon yn hynod lwyddiannus, fel wrth ymdrin ag ystod o ddarnau arian wrth dalu i logi esgidiau glaw i'w gwisgo yn yr ardal goedwig. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn adeiladu ar eu medrau rhif yn dda wrth gyfrifo perimedr ac arwynebedd siapiau cyfansawdd yn hyderus, er enghraifft.

Mae arweinwyr yn buddsoddi'n bwrpasol mewn adnoddau i gyfoethogi'r defnydd addysgol o'r ardal allanol eang. Mae hyn yn cynnwys mannau agored ysgogol fel y 'parc antur' a'r ardal goedwig i'r disgyblion ieuengaf ddatblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth iddynt ddefnyddio offer yn egniol i ymgymryd â her 'dringo'r Wyddfa'. Mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr sy'n cefnogi datblygiad creadigol ac artistig disgyblion yn llwyddiannus. Ar frig yr ysgol, mae'r disgyblion hynaf yn cydweithio'n effeithiol gan ddefnyddio ystod o offerynnau i gyfansoddi alaw fachog ar gyfer cyflwyno podlediad.

Mae'r ddarpariaeth gan staff ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gadarn. Mae'r Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) a'r cymorthyddion dysgu yn frwdfrydig am eu cyfrifoldebau wrth gefnogi anghenion addysgol, cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. O dan arweiniad medrus y CADY, mae staff yn darparu ystod o raglenni cefnogi sy'n diwallu anghenion penodol disgyblion yn llwyddiannus. Mae staff yn cydweithio'n arbennig o dda gyda rhieni ac amrywiaeth o bartneriaethau i gefnogi'r disgyblion gydag anghenion penodol, er enghraifft trwy gydweithio â'r tîm therapi iaith a lleferydd a'r tîm iechyd i ddarparu cymorth arbenigol.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion weithio ar dasgau yn annibynnol, mewn parau ac o fewn grwpiau bychain. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau'r disgyblion wrth iddynt gydweithio a datblygu eu syniadau ar y cyd, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 drafod a phwyso cyfaint siwgr mewn bwydydd a diodydd amrywiol. Yn ogystal, mae'r profiadau hyn yn dwysáu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd gwneud dewisiadau iach. Er hyn, ar brydiau, nid yw athrawon yn darparu tasgau sy'n herio ychydig iawn o ddisgyblion mwy abl. O ganlyniad, nid ydynt bob amser yn cyflawni hyd gorau eu gallu ar draws ystod o fedrau.

Yn yr arfer orau, mae staff a'r disgyblion eu hunain yn cynnig adborth defnyddiol sy'n cefnogi disgyblion i ddeall eu cryfderau eu hunain a'u meysydd i'w gwella yn eu dysgu. Pan gânt y cyfle, mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn bwrpasol i adborth, ac yn ei ddefnyddio'n addas er mwyn gwneud gwelliannau buddiol i'w gwaith. Yn gyffredinol, ar draws yr ysgol, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ymateb i adborth.

Mae arweinwyr yn monitro'r gyllideb yn ddarbodus. Maent yn sicrhau bod penderfyniadau gwariant yn canolbwyntio'n synhwyrol ar flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwelliant, fel buddsoddiadau mewn adnoddau digidol a dyfeisiau ar gyfer

rhaglennu i atgyfnerthu medrau codio disgyblion o oedran cynnar, er enghraifft. O ganlyniad, wrth iddynt aeddfedu, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau codio gan ddefnyddio algorithmau'n fedrus.

Un o rinweddau pennaf yr ysgol yw'r modd mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau arwain o fewn ei chymuned ehangach. Mae'r cyngor ysgol yn cydweithio'n effeithiol iawn â chyngor cymunedol Henllan i ddatblygu a gosod arwyddion yn y pentref i gynghori'r cyhoedd i godi baw eu cŵn ar eu holau, er enghraifft. O ganlyniad, mae'r profiadau hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at eu datblygiad fel dinasyddion ifanc egwyddorol a chyfrifol sy'n arddangos gofal a pharch at eu cymuned.

Mae cyfnodau cyd-addoli yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau moesol ac ysbrydol yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion ieuengaf yn mynychu sesiynau 'Bears and Prayers' yn Eglwys Sant Sadwrn sy'n hybu eu dealltwriaeth o grefyddau'r byd ac yn cynnig cyfleoedd pwrpasol iddynt fyfyrion ar eu teimladau a'u credoau personol.

Mae'r llywodraethwyr yn datblygu dealltwriaeth gadarn o weithgareddau'r ysgol wrth gynnal teithiau dysgu a thrafod gwaith disgyblion ochr yn ochr â'r staff. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd llwyddiannus o ganfyddiadau hunanwerthuso i bennu blaenoriaethau pwrpasol ar gyfer gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau'r disgyblion. Er enghraifft, maent wedi adnabod yr angen i fireinio medrau rhesymu mathemategol disgyblion. O ganlyniad, mae ganddynt adnabyddiaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu.

Mae'r pennaeth wedi creu diwylliant buddiol i ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol cyfoethog i'r holl staff ac yn eu hannog i ddatblygu'n barhaus trwy ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol gwerthfawr. Er enghraifft, mae aelod staff wedi ymgymryd â rôl person cofrestredig ar gyfer Cylch Meithrin Henllan sydd ar safle'r ysgol. Mae hyn yn dwysáu'r ymgysylltiad cymunedol cadarn sy'n bodoli ac yn sicrhau bod trefniadau pontio effeithiol yn digwydd pan fydd darpar ddisgyblion yn trosglwyddo i'r ysgol.

## **Gwybodaeth ychwanegol**

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelwch y safle yn peri unrhyw bryder.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rhieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwranddo arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad



## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. 'y rhan fwyaf o ddisgyblion...' neu 'ychydig iawn o ddisgyblion...'. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

bron pob un =	gydag ychydig iawn o eithriadau
y rhan fwyaf =	90% neu fwy
llawer =	70% neu fwy
mwyafrif =	dros 60%
hanner =	50%
tua hanner =	yn agos at 50%
lleiafrif =	islaw 40%
ychydig =	islaw 20%
ychydig iawn =	llai na 10%

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru))

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau  
Estyn  
Llys Angor, Heol Keen  
Caerdydd  
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: [www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**